**Buddion Bangor ar gyfer Pensiynau - Cwestiynau Cyffredin BUPAS**

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn, yn egluro sut mae Buddion Bangor ar gyfer Pensiynau a Chyfnewid Cyflog yn gweithio, a'u nod yw ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Sylwch fod yr holl symiau a ddangosir yn destun newidiadau yn y dyfodol yn unol â deddfwriaeth. Isod rydym wedi nodi atebion i rai cwestiynau a allai fod gennych mewn perthynas â Buddion Bangor ar gyfer Pensiynau a sut y bydd y trefniant yn effeithio arnoch chi.

Sut mae Buddion Pensiynau Bangor yn gweithio?

- Byddwch yn rhoi'r gorau i wneud eich cyfraniadau pensiynau gweithwyr (9.25% o gyfraniadau) i Gynllun Pensiynau ac Yswiriant y Brifysgol ("BUPAS").
- Bydd y Brifysgol yn cynyddu ei chyfraniadau cyflogwr (sy'n 19.5% ar hyn o bryd) ac yn talu swm ychwanegol sy'n gyfwerth â'ch cyfraniad pensiwn gweithiwr cyfredol (9.25% o gyfraniadau) i wneud cyfanswm o 28.75% o gyfraniad yn uniongyrchol i'r BUPAS.
- Caiff eich Cyflog Sylfaenol, ynghyd ag unrhyw Lwfansau Pensiynadwy eraill, eu lleihau yn ôl y swm yr oeddech yn ei dalu'n flaenorol i'r BUPAS.
- O ganlyniad, bydd eich cyflog clir yn cynyddu oherwydd rydych yn talu llai o Gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol (NIC). Y mae hyn oherwydd y telir NIC o'r cyfraniadau pensiwn gweithiwr yr oeddech yn eu talu'n flaenorol, tra na thelir NIC o'r cyfraniadau cyflogwr a fydd yn cael eu talu yn y dyfodol. Bydd y Brifysgol hefyd yn gwneud arbedion NIC yn yr un modd.
- Ni fydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ("AVC") yn ffurfio rhan o Fuddion Pensiynau Bangor, felly mi fyddwch yn parhau i dalu unrhyw AVC yn yr un ffordd ag yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd.
- Ni fydd lefel gyffredinol y cyfraniadau sy'n mynd i mewn i'r cynllun yn newid.
- Nid effeithir ar godiadau cyflog, goramser etc.
- Byddwn yn dyfynnu'ch Cyflog Sylfaenol a'ch Cyflog wedi'i Addasu ar gyfer pob diben allanol, er enghraifft, wrth ddyfynnu'ch cyflog at ddibenion ceisiadau morgais.
- Bydd eich pensiwn a'ch buddion eraill wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

Pam mae'r Brifysgol wedi cyflwyno Buddion Pensiynau Bangor?

- Mae Buddion Pensiynau Bangor yn galluogi i'r Brifysgol wneud arbedion NIC i'r cyflogwr a fydd yn helpu i leihau costau. Ar yr un pryd, mae Buddion Pensiynau Bangor yn cynyddu'ch cyflog clir drwy leihau'ch NIC – felly mae pawb ar eu hennill.
- Mae'r cynnydd yn eich cyflog clir dan Fuddion Pensiynau Bangor yn dibynnu ar eich Cyflog Sylfaenol. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o'r arbedion NIC blynyddol sydd ar gael i weithwyr sy'n gwneud cyfraniadau ar hyn o bryd o 9.25% i'r BUPAS.

| **Cyflog Sylfaenol (£)** | **Arbedion NIC blynyddol y gweithiwr (£)*** |
|---|---|
| 10,000 | 111 |
| 15,000 | 166.50 |
| 20,000 | 222 |
| 25,000 | 277.50 |
| 30,000 | 333 |
| 35,000 | 388.50 |
| 40,000 | 444 |

- *Mae'r arbedion hyn wedi eu seilio ar gyfraddau NIC 18/19 ac mi allant newid wrth i'r gyfraddau hyn newid.
- Mae arbedion NIC yn llai ar gyfer rhai sy'n ennill cyflog uwch oherwydd mae'r gyfradd ar yr hyn y telir NIC yn gostwng o 12% i 2% ar gyfer enillion dros Gyfyngiad Enillion Uchaf yr NIC

Sut y bydd hyn yn effeithio ar fy nghyflog?

- O 1 Mehefin 2009, bydd Buddion Pensiynau Bangor yn gweithredu ar y sail y telir yr holl gyfraniadau arferol gan y Brifysgol. Caiff eich Cyflog Sylfaenol ei ostwng yn ôl faint o gyfraniadau pensiwn yr ydych yn eu talu ar hyn o bryd i mewn i'r BUPAS. Gelwir y cyflog diwygiedig hwn yn Gyflog wedi'i Addasu. Yn gyfnewid am y gostyngiad hwn yn eich cyflog, bydd y Brifysgol yn gwneud cyfraniad cyflogwr ychwanegol cyfatebol i'r BUPAS. Gelwir hyn yn "Buddion Pensiynau Bangor".

A fydd fy Nghyflog Pensiynadwy yn aros yr un fath?

- Mae eich Cyflog Pensiynadwy wedi'i greu o'ch Cyflog Sylfaenol, ynghyd ag unrhyw symiau cytundebol a ganiateir gan y Brifysgol (ac eithrio goramser digontract). Dan Fuddion Pensiynau Bangor, bydd eich Cyflog Pensiynadwy yn parhau i fod wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, ac felly bydd yn parhau i gael ei gyfrifo fel ag y gwneir ar hyn o bryd, h.y. cyn Buddion Pensiynau Bangor ac unrhyw ostyngiadau Cyfnewid Cyflog eraill e.e. Talebau Gofal Plant neu Feithrinfa.

Ydw i'n gymwys i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor?

- Os ydych chi'n Aelod o'r BUPAS ar hyn o bryd, rydych chi'n gymwys i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor. Ni fyddwch yn gallu cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor os bydd eich Cyflog wedi'i Addasu'n dod o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Byddwn yn monitro lefelau tâl ac yn rhoi gwybod i chi os byddwch yn debygol o gael eich effeithio. Fodd bynnag, os bydd eich amgylchiadau'n newid a'ch bod yn meddwl efallai eich bod yn dod dan y categori hwn, dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3865 neu benefits@bangor.ac.uk.

Beth sy'n digwydd os oes nifer o fuddion Cyfnewid Cyflog?

- Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol eisoes yn cynnig Talebau Meithrinfa, Archebu Beic a Gwyliau drwy trefniadau Gyfnewid Cyflog. Am fwy o fanylion ymwelwch a'r safle we Buddiannau Staff.
- Byddwch yn gallu cymryd rhan yn yr holl fuddion Cyfnewid Cyflog cyhyd â nad yw hyn yn dod â'ch Cyflog wedi'i Addasu o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Ffin Diogelu Cyflog at ddibenion NIC). Os mae hyn yn broblem wrth gyflwyno Buddion Pensiynau Bangor, bydd unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog cyfredol yn cael blaenoriaeth. Os daw hyn yn broblem ar ôl cyflwyno Buddion Pensiynau Bangor, bydd unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog cyfredol yn cael blaenoriaeth.

Os byddaf yn cytuno i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, a fydd yn effeithio ar unrhyw daliadau eraill?

- Bydd yr holl godiadau cyflog yn y dyfodol yn parhau i fod wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, ac felly ni fydd cyflwyno Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio arnynt. Caiff eich holl fuddion sy'n gysylltiedig â thâl eu cyfrifo yn ôl eich Cyflog Sylfaenol hefyd.

[Beth am Farwolaeth mewn Swydd a Phensiwn Priod?]

Ni fydd y buddion hyn yn newid, a byddant yn parhau i fod wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

[Fyddai'n dal i gael yr un pensiwn BUPAS pan fyddai'n ymddeol?]

Byddwch. Mae eich pensiwn pan fyddwch yn ymddeol wedi'i seilio ar eich gwasanaeth yn yr BUPAS a'ch Cyflog Pensiynadwy. Ni fydd eich Cyflog Pensiynadwy'n newid.

[Os mae fy nhâl yn cael ei ostwng, fyddai'n gallu gwirio bod fy ngoramser etc wedi cael ei weithio allan yn gywir a'i dalu i mi?]

Bydd eich slipiau cyflog yn edrych ychydig yn wahanol. Bydd eich Cyflog Sylfaenol ac unrhyw lwfansau pensiynadwy eraill yn cael eu dangos ar eich slip cyflog ynghyd â gostyngiad Buddion Pensiynau Bangor, wedi'i labelu fel "Buddion Bangor - Pensiynau".

Ni fydd y cyfraniadau pensiwn a dynnwyd o'ch cyflog o'r blaen, a ddangoswyd fel 'BUPAS', yn ymddangos ar y slip cyflog gan nad ydych yn talu unrhyw gyfraniadau mwyach.

[A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar faint o ostyngiad treth rydw i'n ei dderbyn?]

Na, nid effeithir ar faint y gostyngiad treth a dderbynnir.

[A oes unrhyw amgylchiadau lle na fydd yn bosibl neu'n fanteisiol cymryd rhan?]

Ni fyddwch yn gallu cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor os bydd eich cyflog yn agos i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Hefyd, os bydd eich enillion yn agos i'r Ffin Diogelu Cyflog byddech mewn perygl o gael effaith negyddol ar eich hawl i fuddion gwladol. Ni fyddwn, felly, yn trefnu i chi ymuno'n awtomatig â Buddion Pensiynau Bangor os bydd eich enillion yn agos i'r Ffin Diogelu Cyflog. Fodd bynnag, os dymunwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, bydd arnoch angen llenwi ffurflen ymuno sydd ar gael gan yr adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3865 neu drwy e-bostio benefits@bangor.ac.uk.

Os bydd eich cyflog misol wedi'i addasu yn disgyn o dan y Ffin Diogelu Cyflog misol yn ystod y flwyddyn, byddwch yn cael eich eithrio'n awtomatig o Fuddion Pensiynau Bangor am weddill y flwyddyn. Byddwch yn gallu ailasesu'ch cofrestriad gyda Buddion Pensiynau Bangor ar 1 Awst, neu os byddwch yn profi 'Digwyddiad Bywyd'.

Os nad oes ganddoch oriau penodol, ni fyddwch yn ymuno â Buddion Pensiynau Bangor yn awtomatig. Os dymunwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, yna dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 383865, ymweld a tudalennau mewnrwyd Adnoddau Dynol, neu e-bostio benefits@bangor.ac.uk.

Rydw i dros oedran ymddeol y wladwriaeth, ac felly dydw i ddim yn talu NIC. Alla'i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor?

Os ydych chi dros oedran ymddeol y wladwriaeth (65 i 68 oed yn bresennol) ni fyddwch yn talu NIC ar eich cyflog, ac o ganlyniad, ni fyddwch yn gweld unrhyw newid yn eich cyflog clir drwy gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor. Fodd bynnag, mae hi'n dal yn ofynnol i'r Brifysgol dalu NIC cyflogwr ar y cyflog a dderbyniwch, ac yn gwneud arbedion felly, a fydd yn helpu i leihau ei chostau, a bydd yr arbedion a wna'r Brifysgol yn cael eu defnyddio gan eich adran chi. Wedi'i seilio ar hyn, cewch eich cofrestru'n awtomatig ar gyfer Buddion Pensiynau Bangor.

Rydw i'n talu NIC ar y gyfradd NIC is i ferched priod. Fyddai'n cael budd o arbedion NIC?

Os ydych chi'n talu NIC ar y gyfradd is ar gyfer merched priod a gweddwon (perthnasol i'r gweithwyr hynny a ddewisodd hyn cyn 12 Mai 1977), rydych chi'n talu NIC ar gyfradd is ar enillion.

Byddwch yn dal i wneud arbedion NIC o gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, ond bydd eich arbedion wedi eu seilio ar y cyfraddau hyn yn hytrach na'r symiau y cyfeirir atynt yn rhywle arall yn y ddogfen hon.

A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar Dâl Mamolaeth Statudol (SMP)?

Mae gan weithwyr sy'n cychwyn ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth hawl i'r canlynol;

- Wyth wythnos gyntaf yr absenoldeb ar gyflog llawn (mae hyn yn cynnwys unrhyw hawl i Dâl Mamolaeth Statudol sy'n daladwy yn ystod y cyfnod o wyth wythnos)
- Deunaw wythnos nesaf yr absenoldeb ar hanner cyflog, ynghyd â Thâl Mamolaeth Statudol yn ôl yr hawl, wedi'i dalu i'r graddau na fydd yn fwy na'r cyflog arferol
- Y tair wythnos ar ddeg nesaf wedi'u talu ar gyfradd unffurf Tâl Mamolaeth Statudol, yn ôl yr hawl
- Hyd at dair wythnos ar ddeg arall yn ddi-dâl

Bydd eich Tâl Mamolaeth Statudol wedi'i seilio ar eich Cyflog wedi'i Addasu, ac felly bydd y Brifysgol yn 'ychwanegu' at eich tâl i'r lefel y byddech wedi'i derbyn pe na fyddech wedi cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, i sicrhau nad ydych mewn gwaeth sefyllfa. Bydd eich Tâl Mamolaeth Uwch wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol (cyn unrhyw ostyngiadau ar gyfer Buddion Pensiynau Bangor, talebau gofal plant neu feithrinfa). Byddwch yn parhau i gyfnewid cyflog wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, cyhyd â nad yw eich Cyflog wedi'i Addasu yn mynd o dan y lefel Tâl Mamolaeth Statudol. Yn ystod cyfnodau lle byddwch yn derbyn Tâl Mamolaeth Statudol yn unig, ni fyddwch yn cyfnewid unrhyw gyflog; fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn parhau i wneud cyfraniadau pensiwn wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol cyn yr Absenoldeb Mamolaeth.

A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy Nhâl Mabwysiadu?

Mae'r rheolau cymhwyso ar gyfer Absenoldeb Mabwysiadu a Thâl Mabwysiadu yn gymhleth. Os ydych chi'n ystyried, neu'n mynd drwy leoliad mabwysiadu, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3865 neu e-bostiwch benefits@bangor.ac.uk am fwy o gyngor. Fodd bynnag, bwriad y Brifysgol yw na fyddwch dan anfantais o ganlyniad i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor.

[Beth os ydw i'n gofyn am eirda ar gyfer morgais neu fenthyciad?]

Byddwn yn rhoi gwybod eich Cyflog Sylfaenol i fenthycwyr, sef eich tâl cyn unrhyw ostyngiad dan Fuddion Pensiynau Bangor neu unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog eraill a'ch Cyflog wedi'i Addasu, ar ôl unrhyw ostyngiadau ar gyfer Buddion Pensiynau Bangor neu drefniadau Cyfnewid Cyflog eraill. Golyga hyn na ddylai Buddion Pensiynau Bangor gael effaith niweidiol ar eich gallu i gymhwyso am forgais neu fenthyciad arall.

[Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn os byddaf yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol ac yn gadael yr BUPAS?]

Os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol ac yn gadael yr UPAS gyda mwy na dwy flynedd o wasanaeth, ni fydd unrhyw newid. Bydd gennych ddewis o bensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo o'ch buddion wedi'u gohirio.

Ar hyn o bryd, os byddwch yn gadael gyda mwy na thri mis o wasanaeth, ond llai na dwy flynedd o wasanaeth, mae gennych yr un dewisiadau ag y nodir uchod (pensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo) ynghyd â'r dewis o ad-daliad o'ch cyfraniadau eich hun (llai didyniadau statudol). Dan Fuddion Pensiynau Bangor, ni fyddwch yn gwneud cyfraniadau gweithwyr mwyach, ac felly, ni fyddwch yn gallu derbyn ad-daliad o unrhyw gyfraniadau gweithwyr ychwanegol a wnaed dan Fuddion Pensiynau Bangor.

Os byddwch yn gadael gyda llai na thri mis o wasanaeth, bydd gennych hawl i ad-daliad tybiannol o gyfraniadau cyfwerth â lefel Cyfnewid Cyflog. Bydd hyn yn dileu unrhyw hawl i bensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo.

[A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy Nghredydau Treth?]

Na fydd. Ni fydd cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor ar ei ben ei hun yn effeithio ar unrhyw Gredydau Treth Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi.

[Beth am fuddion pensiwn gwladol?]

Bydd unrhyw effaith ar fuddion Ail Bensiwn Gwladol yn fychan iawn o gymharu â'r arbedion NIC gan fod yr UPAS wedi'i gontractio allan o'r Ail Bensiwn Gwladol. Golyga hyn bod yr UPAS yn darparu'r rhan fwyaf o'r buddion y byddai'r Ail Bensiwn Gwladol yn eu darparu fel arall. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw Aelod sy'n ennill llai na tua £43,888 yn ystod 2009/10, mewn gwirionedd mi fydd yna ychydig o gynnydd mewn rhai o'r buddion Gwladol sy'n daladwy.

[A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy nhaliadau i'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)?]

Caiff taliadau cynnal plant i'r CSA eu cyfrifo gan gyfeirio at eich incwm net h.y. eich cyflog ar ôl didynnu cyfraniadau pensiwn, treth a NIC. Dan Fuddion Pensiynau Bangor, mae eich incwm net yn cynyddu oherwydd rydych yn talu llai o NIC ac efallai y bydd eich taliadau cynnal plant yn cynyddu o ganlyniad felly.

Os penderfynwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, dylech roi gwybod i'r CSA am y newid yn eich incwm net ar unwaith. Cewch fanylion cyswllt ar gyfer y CSA a rhagor o fanylion o wefan y CSA yn www.csa.gov.uk.

## A effeithir ar fy ad-daliadau benthyciad myfyriwr?

Os ydych chi'n ad-dalu benthyciad myfyriwr a gymerwyd allan gyda'r Student Loans Company, efallai y bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn cael eu gostwng ychydig o ganlyniad i gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor. Y mae hyn oherwydd y caiff eich ad-daliadau eu cyfrifo yn ôl eich enillion gros, a fydd yn is dan Fuddion Pensiynau Bangor drwy'r Cyfnewid Cyflog.

## Sut caiff gweithwyr newydd eu trin?

Mae gweithwyr newydd ar gontractau penodol o fwy na thri mis yn cael eu cofrestru'n awtomatig gyda'r BUPAS oni bai eu bod yn llenwi ffurflen eithrio BUPAS (ffurflen eithrio yw hon i ddewis peidio ag ymuno â chynllun pensiwn yr BUPAS, nid ffurflen eithrio o Fuddion Pensiynau Bangor). Byddant yn ymuno'n awtomatig hefyd gyda Buddion Pensiynau Bangor oni bai eu bod yn llenwi ffurflen eithrio Buddion Pensiynau Bangor, neu ein bod ni wedi nodi y byddai'n anfanteisiol iddynt gymryd rhan. Eglurir hyn yn fanylach yn y pecyn rhagarweiniol.

Ni fydd gweithwyr newydd ar gontractau o lai na thri mis, neu a delir ar sail taflenni amser, yn ymuno'n awtomatig gyda'r BUPAS neu Fuddion Pensiynau Bangor. Os dymunant gofrestru, rhaid iddynt lenwi'r cyfryw ffurflen. Eglurir hyn yn fanylach yn y pecyn rhagarweiniol.

## Oes raid i mi wneud unrhyw beth i gymryd rhan, e.e. llofnodi unrhyw ffurflenni?

Nac oes. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth oherwydd fe gewch eich cynnwys yn awtomatig.

## Beth os nad ydw i eisiau cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor?

Gellwch ofyn am ffurflen eithrio o Fuddion Pensiynau Bangor gan yr Adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3865, drwy e-bostio benefits@bangor.ac.uk, neu drwy ymweld a tudalennau mewnrwyd Adnoddau Dynol.

Mae eithrio o Fuddion Pensiynau Bangor yn golygu y byddwch yn parhau i gymryd rhan yn yr BUPAS, ond na fyddwch yn gallu manteisio ar yr arbedion NIC fyddai'n arwain at gynnydd yn eich cyflog clir, a fyddai'n bosibl drwy gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor.

## Beth os ydw i'n newid fy meddwl, neu fod fy amgylchiadau'n newid?

Os penderfynwch gymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor, ni fyddwch yn gallu tynnu'n ôl tan 1 Awst 2010, ac wedi hynny, unrhyw 1 Awst dilynol oni bai eich bod yn profi unrhyw un o'r "Digwyddiadau Bywyd" canlynol:

- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Genedigaeth neu ar gamau allweddol o fabwysiadu plentyn
- Rhoi gwybod am feichiogrwydd neu ddechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth / dychwelyd o absenoldeb o'r fath
- Ysgariad / gwahaniad cyfreithiol / diddymu partneriaeth sifil
- Marwolaeth partner neu ddibynnydd
- Cyfnod o absenoldeb salwch tymor hir
- Dychwelyd o gyfnod o absenoldeb salwch tymor hir
- Diswyddo partner neu golli gwaith yn anwirfoddol
- Dechrau absenoldeb di-dâl o fwy na 3 mis, neu ddychwelyd o absenoldeb o'r fath (mabwysiadu, tadolaeth, sabothol, saib mewn gyrfa, etc.)

- Newid sylweddol mewn oriau (20% neu fwy)
- Gostyngiad mewn Cyflog Sylfaenol o 20% neu fwy
- Dechrau secondiad dramor, neu ddychwelyd o secondiad o'r fath
- Ymuno â'r Cynllun Pensiwn / ei adael
- Gadael cynllyn UUS o fewn tri mis o ymuno.
- Cyrraedd Oedran Ymddeol Gwladol (60 oed i ferched a 65 oed i ddynion ar hyn o bryd)
- Symud ty
- Rhoi plentyn gyda gofalwr plant cofrestredig

Yn yr achosion hyn, gellwch lenwi ffurflen Digwyddiadau Bywyd Allweddol, ac eithrio o Fuddion Pensiynau Bangor. Os penderfynwch eithrio o Fuddion Pensiynau Bangor, cewch gyfle i adolygu'ch penderfyniad a dewis cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor o 1 Awst 2010 ac unrhyw 1 Awst dilynol ar ôl hynny. Mi fyddwch chi hefyd yn gallu dewis cymryd rhan ym Muddion Pensiynau Bangor os byddwch yn profi unrhyw un o'r 'digwyddiadau bywyd' a nodir uchod.

Sut caiff gweithwyr newydd eu trin?

Mae gweithwyr newydd ar gontractau penodol o fwy na thri mis yn cael eu cofrestru'n awtomatig gyda'r BUPAS oni bai eu bod yn llenwi ffurflen eithrio BUPAS (ffurflen eithrio yw hon i ddewis peidio ag ymuno â chynllun pensiwn yr BUPAS, nid ffurflen eithrio o Fuddion Pensiynau Bangor). Byddant yn ymuno'n awtomatig hefyd gyda Buddion Pensiynau Bangor oni bai eu bod yn llenwi ffurflen eithrio Buddion Pensiynau Bangor, neu ein bod ni wedi nodi y byddai'n anfanteisiol iddynt gymryd rhan. Eglurir hyn yn fanylach yn y pecyn rhagarweiniol.

Ni fydd gweithwyr newydd ar gontractau o lai na thri mis, neu a delir ar sail taflenni amser, yn ymuno'n awtomatig gyda'r BUPAS neu Fuddion Pensiynau Bangor. Os dymunant gofrestru, rhaid iddynt lenwi'r cyfryw ffurflen. Eglurir hyn yn fanylach yn y pecyn rhagarweiniol.

I bwy alla'i ofyn os oes gennyf ragor o gwestiynau?

Os oes gennych ragor o gwestiynau, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 382058, drwy e-bost i benefits@bangor.ac.uk neu drwy gysylltu a'r Rheolwr Pensiynau ar 01248383261.

Be fydd yn digwydd i'r arian y bydd y Brifysgol yn ei arbed drwy gyflwyno'r cynllun hyn?

Bydd yr arian a arbedir yn cael ei ddefnyddio i gwrdd a costau ychwanegol o fewn y cynllyn BUPAS, ac o fewn y cynllun USS bydd yn cyfranu tuag at unrhyw gynydd yn cyfraniad y cyflogwr yn y dyfodol.